

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed Ebrill 2019

Presennol- Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Marion Bettenev, Nick Corney, Neil Pringle, Dyfed Jones, Siân Godbert, Janet Charlton, Caerwyn Roberts, Clerc.
Ymddiheuriad -- Cyng. Elisabeth Roberts
Datgan diddordeb – Dim datganiad o ddiddordeb

Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 11eg Fawrth 2019.

Materion yn codi

(1)Yr Heddlu

Cyfeiriodd y clerch at y canlynol a dderbyniwyd gan SCHG Jonathan Thomas :

[a] Roedd criw o bobl ieuanc wedi bod yn neidio o flaen moduron, ond yn anffodus ni chawsant eu hadnabod.

[b] 2 achos o ymddwyn yn wrth gymdeithasol, 4 achos o amgylchiadau amheus, 11 o greu trafferthion ar y ffordd, yn bennaf o ganlyniad y llifogydd.

Y clerch i gysylltu gyda'r heddwas bod moduron yn parcio o flaen Gwesty Pont-y-Pair a Siop Hawkshead

[1.1] Pont Droed yn uwch i fyny o Bont-y-Pair.

Nodwyd llythyr gan aelod y cynulliad J F Saunders yn amlinellu fod cais wedi ei wneud gyda Mr Vic Turner o Gyngor Sir Conwy iddynt ystyried dymchwel y wal o flaen siop Cunningham's Y clerch i geisio darganfod perchnogaeth y tir ar yr ochr bella i'r afon gyferbyn a'r maes parcio'

[1.2] Rheolaeth Cae Llan

Penderfynwyd trafod y mater yn y cyfarfod nesaf.

[1.3] Llifogydd Pentre' Du

Nodwyd bod cyfarfod wedi ei drefnu yn y Neuadd Goffa nos Lun nesaf 15fed Ebrill am 7.00 y.h. Cytunodd y Cyng. Siân Godbert a Nick Corney fod yn bresennol.

[1.4] Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst

Gofynnwyd gan y Cyng. Neil Pringle ar ran pwyllgor yr Eisteddfod a fyddai'n bosib defnyddio Cae Llan yn faes parcio yn ystod yr ŵyl. Yn anffodus, gan fod y cae yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau adloniant gwrthodwyd y cais.

[1.5] Gwaith Diogelwch Cronfeydd Dwr Gwydyr

Deallwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru, bod Dawnus y prif gontractwr yn nwylo'r gweinyddwyr ond bydd contractwr newydd yn aildechrau'r gwaith gydag 'r bwriad i orffen erbyn Hydref 2019

[1.6] Colofn Golau Ffordd yr Orsaf

Gan nodi nad oedd dim cam ymlaen gan y Parc Cenedlaethol i atgyweirio'r diffyg. Penderfynwyd ceisio diweddariad misol ganddynt.

[1.7] Siop Ultimate Outdoors

Gan nad oedd J D Sports yn barod i dacluso'r eiddo, penderfynwyd cysylltu gyda Guto Bebb a Janet F Saunders yn datgan pryder y Cyngor.

Y brif Agenda

[1.8] Materion Cynllunio

[a] Caniatad hysbyseb arfaethedig i arddangos arwyddion tafluniol goleuedig a.y.b. Siop Spar Tandderwen, Betws-y-Coed.

[b] Dymchwel estyniad unllawr ac adeiladu estyniad deulawr newydd. Coed y Fron, Vicarage Road, Betws-y-Coed.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r ddau gais uchod.

[1.9] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod mis Mawrth 2019

[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Mawrth 2019

[2] Adnewyddu'r Gamfa Dro / Rhaeadr Ewynnol

Nodwyd gofyniad Rheolau Cyllid y Cyngor fod cytundebau a gwerth rhwng £3000 a £25,000 i gael eu hysbysebu'n allanol, penderfynodd yr aelodau mae estyniad i'r cytundeb cyfredol oedd y gwaith a dewiswyd rhoi'r rheolau cyllid o'r neilltu [rheolau cyllid rhan 11.1c] i alluogi'r pris gael ei gytuno heb gystadleuaeth. Penderfynwyd apwyntio Strobe Security I ymgymryd y gwaith

[2.1] Goleuadau Nadolig

Y clerch i gysylltu gyda Goleuadau Blachere i geisio cwrdd gyda'i cynrychiolydd er mwyn trafod yr anghenion.

[2.2] Llogi'r Neuadd

Cyfeiriodd y clerch at gais i logi'r neuadd ar gyfer Ffair Grefftau. Penderfynwyd cymeradwyo'r cais.

[2.3] Llythyr gan Mr Michael Hatch, Bryn Afon

Nodwyd llythyr gan Mr Hatch yn cwyno fod mwg o fwthyn cyfagos yn chwythu i gyfeiriad ei eiddo a bod hyn yn golygu bod rhaid cau pob drws a ffenest. Y clerch i ymateb mai mater i Adran yr Amgylchedd y Cyngor Sir ydyw.

[2.4] Rheilffordd Dyffryn Conwy

Cyfeiriodd y clerch at lythyr gan Network Rail yn cynghori eu bod wedi dechrau ar waith atgyweirio yn dilyn difrod y llifogydd yng nghanol mis Mawrth. Nodwyd hefyd bod cyfarfod wedi ei drefnu yn Glasdir ar y 10fed Ebrill am 6.00 y.h. lle bydd swyddogion yn diweddarau ar y sefyllfa.

[2.5] Llwybr Aml Bwrpas

Y clerch i gysylltu gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i ofyn am gael symud y defnyddion adeiladu sydd wedi eu gadael ar y llwybr ers rhai misoedd.